



# WALES' INTERNATIONAL STORYTELLING FESTIVAL GŴYL CHWEDLEUA RYNGWLADOL CYMRU

## Brîff Gwerthuso Hwb Chwedleua Myseliwm

**Ffi:** £5000 (ar sail 20 diwrnod @ £250 ar hyd prosiect â llinell amser 18 mis)

**Llinell amser:** Penodi Ionawr 2022, prosiect yn dod i ben Gorffennaf 2023

**Dyddiad cau ceisiadau:** 14 Ionawr, 2022

### Cefndir/Cyd-destun:

Mae Beyond the Border - Gŵyl Chwedleua Ryngwladol Cymru ynghyd ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Menter Iaith, People Speak Up, Citrus Arts, dau chwedleuwr unigol a chynrychiolydd cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd mewn cynllun cydweithredol cyffrous i sicrhau dyfodol y sector chwedleua yng Nghymru, gyda chyllid gan gronfa Cysylltu a Ffynnu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Rhwydwaith o bartneriaid sefydliadol a llawrydd, wedi ymrwymo i rannu arfer a meithrin chwedlau llai cyffredin o bob rhan o gymunedau amrywiol Cymru yw Hwb Chwedleua Myseliwm. Ysbrydolwyd y model gan rwydweithiau myceliwm natur ac mae'n cynnwys cefnogaeth i gynhyrchwyr a rôl newydd i'n Cyfarwyddion cyfoes.

Bydd Cyfarwyddion cyfoes yn helpu i ddatgelu a rhannu storïau'r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt am breswiliad deuddeng mis. Ysbrydolir swyddogaeth y Cyfarwydd yn uniongyrchol gan draddodiadau hŷn y Cyfarwydd yng Nghymru; chwedleuwyr oedd yn cofnodi ac adlewyrchu'r hyn oedd yn digwydd yn eu cymunedau, gan gynnig arweiniad cynnil trwy'r storïau yr oeddent yn eu hadrodd. Roedd gan bob Cyfarwydd brentisiaeth, a byddai'n mynd ymlaen i fod yn aelod mawr ei barch o gymdeithas, yn teithio a dod â newyddion i'r llysoedd, gan adlewyrchu cymdeithas y cyfnod.

Bydd yr Hwb Myseliwm hefyd yn cynnwys cynhyrchwyr, naill ai wedi eu paru â'r Cyfarwyddion i weithio mewn partneriaeth mewn cymuned benodol neu i ddatblygu rhaglenni neu brosiectau eraill, ar sail meysydd sy'n cael blaenoriaeth neu lle mae potensial.

Mae blwyddyn gyntaf y prosiect yn blaenoriaethu chwedleua trwy gyfrwng y Gymraeg a dwy bartneriaeth benodol i ardal ddaearyddol, yn sir Gaerfyrddin, cartref newydd gŵyl Beyond the Border, ac yng nghymoedd De Cymru. Mae budd i bawb mewn ystyried gwytnwch, hanes,

gwleidyddiaeth, acenion a chymeriadau cymunedau penodol, gan ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod storïau'r cymunedau hyn yn cael eu meithrin a'u dathlu.

### **Manylion Swydd y Gwerthuswr:**

#### **Diben y Swydd**

- dylunio a darparu dulliau gwerthuso y gall yr Hwb a'r ymarferwyr eu defnyddio i gofnodi a dysgu gwersi yng nghyswllt y deilliannau a'r nodau a ragwelir ar gyfer y prosiect
- cynnal cyfweiliadau i gofnodi cryfderau, heriau, gwersi a chyfleoedd y prosiect
- ymchwilio i fanteision dulliau gwaith newydd sy'n cael eu profi yn y prosiect, gan gynnwys:
  - gwarantu incwm i artistiaid ac ymarferwyr
  - galluogi ymarferwyr i arwain
  - datblygu strwythur rhwydwaith sy'n canolbwyntio ar gymuned i helpu i gynyddu ecosystemau celf/cymunedol lleol
  - systemau gwahanol o reoli ymarferwyr (gydag a heb bartneriaid sefydliadol)
  - effaith ar y Gymraeg
- cynhyrchu adroddiad gwerthuso annibynnol sy'n gwerthuso effaith gweithgareddau, i ba raddau y mae'r prosiect wedi cryfhau ecosystemau chwedleua lleol, wedi rhoi manteision i gymunedau, partneriaid ac ymarferwyr ac sy'n cynnig argymhellion ar gyfer datblygu'r prosiect yn y dyfodol

### **Manyleb Person**

#### **Hanfodol**

- Profiad o greu fframweithiau a dulliau gwerthuso, cynnal adroddiadau gwerthuso trylwyr beirniadol gyda hanes profedig
- Profiad o werthuso gyda nifer o bartneriaid mewn prosiect
- Deall anghenion y Gymraeg mewn prosiect dwyieithog
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig a sgiliau cyfweld rhagorol
- Ar gael i weithio'n hyblyg ac o bell am y 18 mis nesaf

#### **Dymunol**

- Profiad o arferion cyd-greadigol ac effaith cymdeithasol trwy'r celfyddydau
- Diddordeb mewn chwedleua fel ffurf gyfoes ar gelfyddyd, gan gynnwys mewn lleoliadau cymunedol

Gallwch ymgeisio trwy fideo hefyd (recordiad 3 munud)

Rydym yn croesawu ceisiadau gan y rhai sy'n cael eu tangynrychioli yn sylweddol yn ein sector, fel pobl anabl, siaradwyr Cymraeg ac unigolion o'r Cymunedau LGBTQIA+, Du, Asiaidd a Mwyafrifoedd Bydeang.

### **Am y Prosiect:**

O fis Medi 2021 i Orffennaf 2023, mae'r Hwb Myseliwm yn sefydlu'r rolau newydd hyn

- 2 Gyfarwydd Cysylltiedig yn People Speak Up rhwng Medi 2021 a Medi 2022
- 2 Gyfarwydd a 2 Gynhyrchydd o Ionawr 2022 i Ragfyr 22
- 2 Gyfarwydd a 2 Gynhyrchydd o Fehefin 2022 i Fehefin 23

Bwriad yr Hwb yw cefnogi 3 x digwyddiad arddangos bach yn 2022 – 2023 (yn ddibynnol ar godi arian).

Bydd pob Cyfarwydd Cyfoes a Chyfarwyddwr yn datblygu rhaglen o weithgareddau chwedleua, gan gynnwys perfformiadau chwedleua ac ymgysylltu, sy'n cyrraedd yn fwy eang ac yn ddyfnach i'r gymuned y mae eu preswylad wedi ei seilio ynddi. Bydd rhai cymunedau yn ddaearyddol, gall eraill fod yn gymunedau o ran diddordeb. Nod y gwaith hwn yw:

- galluogi rhagor o bartneriaid o bob rhan o'r gymuned i gysylltu'n greadigol â chwedleua
- galluogi rhagor o bobl i brofi chwedleua fel rhan ystyrllon o'u bywydau dyddiol
- galluogi rhagor o bobl i ddatblygu creadigrwydd a hyder wrth ymgysylltu â chwedleua
- galluogi i ymarfer a sgiliau'r ymarferwr ei hun ehangu a dyfnhau trwy'r gwaith y bydd yn ei gychwyn a'r amser y bydd yn ei roi i'w ddatblygiad artistig ei hun.

Bydd gan bob Cyfarwydd a Chynhyrchydd berchenogaeth i ddatblygu ei syniadau a'i raglen mewn partneriaeth â'i gymuned, gan alluogi unigolion i fod yn rhagweithiol a gweithio mewn ffyrdd hyblyg, gan ymateb i angen a photensial pob maes. Mae BTB yn ymwybodol o'r amrywiaeth o ymarfer chwedleua a'r ffordd y mae'n cael ei fynegi ar draws ystod eang o waith, iechyd a llesiant, dysgu iaith, addysg, perfformiad, meithrin artistiaid newydd, hyfforddiant. Fel rhan o gais y chwedleuwr, byddwn yn gofyn iddynt nodi'r gymuned y maent yn fwyaf awyddus i weithio gyda nhw – gallai hyn fod yn:

- Gymuned o ddiddordebau (pobl sy'n gysylltiedig trwy ddiddordeb/waith a rennir)

- Gymunedau o ran hunaniaeth (diwylliant neu brofiad a rennir)
- Gymuned Ddaearyddol (tref/stryd/ardal)
- Gymunedau o Amgylchiadau (pobl sydd wedi eu clymu â'i gilydd trwy brofiad a rennir)

Trwy gydol y rhaglen rydym yn awyddus i gefnogi egwyddorion cyd-greadigol, gan weithio gyda neu ochr yn ochr â phobl a chymunedau i ddatblygu sgiliau ac arddangos gallu pobl, gan roi blaenoriaeth i gyfraniad a phrofiad pobl ifanc a theuluoedd.

Bydd yr Hwb Mycelium yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith y flwyddyn ac yn cefnogi unigolion yn eu rôl, bydd Helen Mill o'r Village Storytelling Centre yn Glasgow yn gweithredu fel Cyfaill Beirniadol i'r prosiect. Bydd yr ymarferwyr yn cael eu hannog i gyfarfod yn annibynnol o grŵp yr Hwb i rwydweithio a rhannu arfer, yn ogystal ag i ymgysylltu â'r dulliau gwahanol sydd gan BTB o gefnogi arfer gan gynnwys gweminarau Casglu ac Ysbrydoli.

#### **Sut i ymgeisio:**

Rhowch gynnig ysgrifenedig (uchafswm o 2 ochr) a CV. Dylai eich cynnig gynnwys:

- Sut yr ydych yn bodloni'r fanyleb gyda manylion am eich cefndir a'ch profiad
- Beth fydddech chi'n ei gynnig i'r prosiect, pam eich bod am fod yn rhan ohono
- Amserlen a manylion y nifer o ddyddiau i'w treulio ar y prosiect/y defnydd o'r ffi

**Ffi:** £5000 (ar sail 20 diwrnod @ £250 ar hyd prosiect â llinell amser 18 mis)

**Llinell amser:** Penodi Ionawr 2022, prosiect yn dod i ben Awst 2023

**Dyddiad cau ceisiadau:** 14 Ionawr 2022

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu yr hoffech drafod y swydd cysylltwch â

[naomiwilds@beyondtheborder.com](mailto:naomiwilds@beyondtheborder.com)

Ffôn: 0775 352 8919